

Vaughan Gething AC  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

23 Ebrill 2019

Annwyl Vaughan

Rwy'n ysgrifennu ymhellach atoch ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i atal hunanladdiad yng Nghymru a'r ddadl ddilynol yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Chwefror 2019.

Fel y trafodwyd yn ystod y ddadl honno, croesawodd y Pwyllgor y £500,000 ychwanegol y flwyddyn a gyhoeddwyd yn gynharach eleni ar gyfer atal hunanladdiad yng Nghymru. Gwnaethoch ddweud y bydd yr arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r dulliau cenedlaethol a rhanbarthol i helpu i atal hunanladdiad a hunan-niwed.

Byddwch yn ymwybodol, yn ei adroddiad, fod y Pwyllgor wedi galw am gyllid penodol ar gyfer atal hunanladdiad, ac y byddai'r Pwyllgor yn dymuno gweld rhywfaint o adnodd wedi'i ddiogelu ar gyfer hyn o ystyried cost economaidd hunanladdiad, fel y nodwyd yn glir yn y dystiolaeth a gawsom yn ystod yr ymchwiliad.

Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor ynghylch sut y caiff yr arian ychwanegol hwn ei wario.

Mae rhai ffactorau sy'n peri risg a straen i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig uwchlaw'r ffactorau risg o hunanladdiad sy'n effeithio ar y boblogaeth gyffredinol. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu manylion ynghylch sut y bydd yr arian ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi grwpiau sy'n wynebu risg ledled Cymru, gan gynnwys cyfeiriad penodol at y gymuned ffermio sydd wedi cael ei nodi fel pryder penodol a brys. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried effeithiau ansicr ymadawiad buan y DU â'r UE ar y grŵp risg uchel hwn.



Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i ailystyried y mater hanfodol pwysig o ran atal hunanladdiad yn ystod y misoedd nesaf, ac rydym yn edrych ymlaen at drafod hyn ymhellach â chi maes o law.

Cofion cynnes

A handwritten signature in black ink, reading "Dai Lloyd AC". The signature is written in a cursive style with a large initial 'D'.

Dr Dai Lloyd AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

